

NODIADAU CYFARWYDDYD

Mae hwn yn grant dewisol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cymorth ariannol i unigolion sydd â rhwystrau o ran sefydlu busnes yng Nghymru.

PWRPAS Y GRANT

Pwrrpas y grant yw galluogi unigolion economaidd anweithgar a di-waith 25 oed a hŷn i gychwyn busnes newydd yng Nghymru a bydd yn targedu unigolion sy'n wynebu rhwystrau o ran cychwyn busnesau newydd a'r farchnad gyflogaeth. Bydd y grant hwn yn ychwanegol at gymorth cychwyn busnes arall a gynigir drwy Busnes Cymru. I'r rhai o dan 25 oed, cyfeiriwch at y [Grant Dechrau Busnes i Bobl Ifanc](#).

BUSNES CYMRU

Mae Busnes Cymru yn darparu cymorth penodol wedi'i deilwra i fusnesau newydd, micro a bach a chanolig eu maint yng Nghymru. Gall y gwasanaeth eich helpu i ddeall beth yw eich anghenion a darparu pecynnau cymorth wedi'u teilwra gan gynnwys mynediad at adnoddau ar-lein, gweithdai a gweminarau, cynghorwyr cyffredinol ac arbenigol, a mentoriaid. Yn ogystal â gweithio gyda chi ar gynllun diagnosteg a gweithredu busnes, gall ein cynghorwyr hefyd ddarparu cyngor ariannol wedi'i dargedu a mynediad at gymorth arall y gallech elwa ohono.

I ddarganfod mwy, ewch i: <https://businesswales.gov.wales/starting-up/cy>

PWY SY'N GALLU YMGEISIO?

Mae grant o hyd at £2,000 ar gael i helpu unigolion 25 oed a hŷn i oresgyn rhwystrau i ddechrau busnes. Mae ceisiadau yn agored i unigolion sy'n economaidd anweithgar ac yn ddi-waith.

Wrth ddyrannu cyllid, rhoddir blaenoriaeth i'r unigolion hynny sy'n wynebu rhwystrau o ran sefydlu busnesau newydd ac sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad gyflogaeth.

Meini Prawf Cymhwysedd

I wneud cais, dylech fod yn:

- Yn edrych i ddechrau busnes hunangyflogedig newydd yng Nghymru.
- Yn economaidd anweithgar neu'n ddi-waith.
- Â chynnig busnes hyfyw a fydd yn darparu digon o incwm personol.

Diffiniad o Ddi-waith

Pobl nad ydynt yn gweithio ar hyn o bryd ond sy'n chwilio am waith ac sydd ar gael i weithio yn ystod y pythefnos nesaf.

Diffiniad o Economaidd Anweithgar

Pobl nad ydynt yn gyflogedig nac yn ddi-waith. Nid ydynt mewn gwaith cyflogedig, nid ydynt wedi bod yn chwilio am waith o fewn y 4 wythnos diwethaf a/neu nid ydynt yn gallu dechrau gweithio o fewn y pythefnos nesaf. Gall hyn fod am amryw o resymau gan gynnwys bod wedi ymddeol, gofalu am deulu, bod yn fyfyrwr neu fod yn anabl neu'n rhy sâl i weithio.

Nod cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau Llywodraeth Cymru yw sicrhau marchnad lafur deg a chyfiawn yng Nghymru. Creu Cymru fwy cyfartal, cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial waeth beth yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau, a gweithlu cynhwysol sy'n adlewyrchu cymdeithas a'n cymunedau.

Bydd y cymorth a'r grant Rhwystrau rhag Dechrau Busnes yn targedu pob cymuned ac yn estyn allan at unigolion sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y farchnad lafur. Mae hyn yn cynnwys pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (gan gynnwys ymfudwyr) a phobl anabl. Nod y Model Cymdeithasol o Anabledd yw cael gwared ar y rhwystrau sy'n cyfyngu ar annibyniaeth pobl anabl (Mae'r rhwystrau hyn yn cynnwys agwedd pobl eraill, yr amgylchedd ffisegol, neu rwystrau sefydliadol).

Rhaid i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth nad ydynt mewn gwaith, eu bod yn economaidd anweithgar, yn ddi-waith neu ddim mewn addysg na hyfforddiant. Gall hyn gynnwys P45, derbynneb budd-daliadau, Datganiadau Banc, Llythyr Diswyddo, Llythyr DWP.

Gwybodaeth Gysylltiedig am y Grant

Bwriad y grant hwn a'r cymorth busnes cysylltiedig yw helpu'r unigolion hynny sy'n wynebu rhwystrau i gychwyn busnes ac sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad gyflogaeth. Wrth ddarparu'r grant hwn, mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi ynoch chi a'ch cynnig busnes. Wrth gael mynediad i'r cyllid, byddwch yn derbyn cymorth i gychwyn busnes a bydd angen i chi ddangos yn y cais hyfywedd eich busnes newydd a'ch incwm arfaethedig.

- Bydd angen i ymgeiswyr gwblhau dogfen Datganiad o ddiddordeb (DoDd) . Gellir cael mynediad i'r ddogfen hon ar [dudalen](#) we y Grant Rhwystrau rhag Dechrau Busnes ar gyfer pobl 25 oed a hŷn. Ar ôl ei chwblhau, rhaid dychwelyd y ddogfen mynegi diddordeb i Barriers4SUG@BusinessWales.org ynghyd â phrawf o anweithgarwch economaidd neu ddiweithdra.
- Unwaith y bydd yr DoDd a phrawf o anweithgarwch economaidd neu ddiweithdra wedi dod i law, bydd tîm gweinyddu Busnes Cymru yn cysylltu ag ymgeiswyr a'u cofrestru gyda Gwasanaeth Cyngori Busnes Cymru.
- Bydd ymgeiswyr yn cael cynnig gweminarau cymorth a magu hyder 1-i-1 ychwanegol ymlaen llaw i leihau'r rhwystrau i fynediad i'r rhai sydd bellaf o'r farchnad fusnes a chyflogaeth.
- Mae angen i ymgeiswyr ddatgan nad oes ganddynt fynediad i unrhyw ffynonellau cyllid eraill (neu rai cyfyngedig iawn yn unig) neu nad ydynt yn gallu cael gafael ar unrhyw gronfeydd cychwyn eraill neu nad ydynt ond yn gallu sicrhau cyllid rhannol i gefnogi costau sefydlu neu redeg y busnes.
- Rhaid cyflwyno cais llawn, achos busnes cefnogol a chynllun ariannol o leiaf bythefnos cyn dechrau'r busnes. Ni ellir dyfarnu grantiau unwaith y bydd y busnes wedi dechrau masnachu.
- Bwriad y grant yw cynorthwyo unigolion yn ystod y cyfnod cyn sefydlu busnes drwy gyfrannu tuag at gostau hanfodol dechrau'r busnes (rhaid cynnwys manylion y costau yn y ffurflen gais).
- Mae'r grant ar gyfer gwariant refeniw yn unig. Mae hyn yn golygu mai dim ond gwariant a fydd yn ymddangos yn eich Cyfrif Elw a Cholled sy'n gymwys

Gallai gwariant cymwys gynnwys

- Cymorth arbenigol - ffioedd ymgynghori, TGCh, allforio, marchnata, methodoleg ddarbodus ac ati.
- Cyngor cyfreithiol/proffesiynol
- Costau hyfforddi
- Offer (hyd at £1,000) - Lle nad yw'n cael ei ystyried yn gost gyfalaf drwy ymddangos ar fantolen y cwmni.
- Costau gweithredu - sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â gweithgaredd busnes. Nid yw nwyddau traul yn cael eu hystyried yn gostau gweithredu.
- Sylwch nad yw'r rhestr hon yn holl-gynhwysol nad yn derfynol ac y caiff ceisiadau eu harfarnu ar sail unigol.
- **Sylwer:** Nid bwriad y grant yw cefnogi arian a gymerir o'r busnes i ddibenion personol.
- Mae'r ymgeisydd yn bwriadu gwneud neu'n gweithio tuag at wneud y busnes yn brif ffynhonnell incwm a/neu gyflogaeth. Felly, mae'n rhaid i'r ymgeisydd ddarparu cynnig busnes hyfyw a fydd yn darparu incwm personol digonol.
- Bydd angen i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth bod y cwmni wedi dechrau masnachu, e.e. copi o'r anfoneb gyntaf a'u bod wedi cymryd camau i gofrestru'r busnes ar gyfer yr endid a ddewiswyd ar ei gyfer (e.e. statws cwmni cyfyngedig / hunangyflogaeth gyda CThEM). Cesglir hyn ar ôl y dyddiad cychwyn.
- Dim ond un cais fydd yn cael ei dderbyn fesul busnes.
- Rhaid i geisiadau gael eu cyflwyno gan yr unigolyn sy'n gwneud cais am y grant ac nid gan asiantau sy'n gweithredu ar eu rhan.
- Bydd angen i ymgeiswyr ddatgan unrhyw gymorth ariannol arall a chyfredol a gawsant gan y Llywodraeth neu Awdurdodau Lleol dros y tair blynedd ariannol ddiwethaf. Nid yw'r unigolion hynny sydd wedi bod yn derbyn arian o'r Gronfa Entrepreneuriaeth Canol Trefi neu rowndiau blaenorol y grant Rhwystrau rhag Dechrau Busnes yn gymwys ar gyfer y cam hwn o'r grant Rhwystrau rhag Dechrau Busnes.
- Unwaith y bydd yr arian grant wedi'i dalu i'r ymgeisydd, dylent geisio cychwyn y busnes cyn gynted â phosibl. Gallai methu â gwneud hynny arwain at Lywodraeth Cymru a/neu ei chontractwyr penodedig yn gweithredu eu hawliau i adennill yr arian.
- Mae cyllid grant yn rhan o incwm masnachu'r busnes ac felly mae'n drethadwy. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw ei ddatgan i CThEM. Gellir gofyn am wybodaeth gan eich cyngorydd busnes.
- Fel rhai sydd wedi derbyn buddsoddiad cyhoeddus, gofynnir i ymgeiswyr adolygu eu harferion busnes ynghylch cynaliadwyedd a chydaddoldeb ac fel y gofyniad lleiaf, bydd angen iddynt ymrwymo i Addewid Twf Gwyrdd Busnes Cymru a'r Addewid Cydraddoldeb. Gellir dod o hyd i fanylion am hyn yn yr Addewid Twf Gwyrdd a'r Addewid Cydraddoldeb.

Categoriâu Busnes nad ydynt yn cael eu cefnogi

Busnesau sy'n gysylltiedig â hyrwyddo safbwyntiau crefyddol neu wleidyddol penodol; hapchwarae; pornograffi; darparu gwasanaethau rhywiol o unrhyw fath; unrhyw weithgareddau anghyfreithlon; a busnes arall y bernir ei fod yn 'newydd a dadleuol' gan Lywodraeth Cymru.

FAINT O ARIAN ALLWCH CHI YMGEISIO AMDANO?

Mae grant o hyd at £2,000 ar gael fesul busnes (caniateir un cais yn unig ar gyfer pob busnes).

Mae angen i ymgeiswyr gadarnhau, nad oes ganddynt, heb y cymorth grant, ond ychydig iawn neu ddim ffynonellau cyllid i'w helpu i ddechrau eu busnes.

Bydd Busnes Cymru yn defnyddio disgresiwn ar gyfer dyfarniadau grant yn seiliedig ar y dystiolaeth o angen a amlinellir yn yr achos busnes a'r cais. Os caiff cais ei gymeradwyo, gwneir taliad i gefnogi costau refeniw cyn i'r busnes ddechrau masnachu (cyn cychwyn).

Nid ydym yn rhagweld y bydd pob ymgeisydd yn gwneud cais am y swm uchaf sydd ar gael. Dylai ymgeiswyr wneud cais am y swm o arian sydd ei angen i ddechrau eu busnes yn unig. Bydd hyn yn ein galluogi i gefnogi cymaint o unigolion â phosibl i ddechrau busnes trwy'r grant hwn.

SUT I YMGEISIO

- Rhaid i ymgeiswyr gwblhau'r Datganiad o ddiddordeb (DoDd) a'i gyflwyno ynghyd â phrawf o ddiweithdra/anweithgarwch economaidd yn ogystal â phrawf o fisa lle bo'n berthnasol drwy'r blwch post Barriers4SUG@BusinessWales.org
- Unwaith y byddwn wedi derbyn a gwirio'r DoDd bydd gweinyddwr Busnes Cymru yn cysylltu â chi i gofrestru ar raglen Busnes Cymru.
- Disgwylir i bob ymgeisydd gymryd rhan yn y cymorth paratoadol cyn cychwyn a chwblhau achos busnes gyda'ch cynghorydd busnes. Ar ôl i chi gwblhau'r cymorth paratoadol cyn cychwyn, byddwch yn derbyn y ffurflen gais am grant.
- Rhaid e-bostio'r ffurflen gais wedi'i chwblhau, ynghyd ag achos busnes a chynllun ariannol ar gyfer y busnes, at Barriers4SUG@BusinessWales.org fel y gellir ei hasesu a chynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar y manylion a ddarperir yn eich cais i sicrhau bod arian yn cael ei fuddsoddi mewn cynigion busnes cymwys a hyfyw.
- Rydym yn anelu at ymateb a chydabod ei derbyn o fewn 5 diwrnod gwaith.
- Mae'r Grant Rhwystrau rhag Dechrau Busnes ar gyfer pobl 25 oed a hŷn ar agor i DoDd o 12 Ionawr 2024. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau yw 15 Mawrth 2024. Fodd bynnag, os caiff yr arian ei ddefnyddio'n llawn cyn y dyddiad hwn, bydd y cynllun yn cau.
- Os oes gennych unrhyw gwestiynau cyn gwneud cais neu os oes gennych unrhyw bryderon na fyddwch efallai'n gallu cymryd rhan yn y broses ymgeisio neu gynllunio busnes am resymau meddygol/technegol/gofalu, cysylltwch â Busnes Cymru i drafod sut y gallwn helpu.

CANLLAWIAU AR GYFER LLENWI'R FFURFLEN

Adran 1 - Gwybodaeth amdanoch chi

Mae'r rhan hon yn gofyn am wybodaeth amdanoch chi 'yr ymgeisydd'. Sicrhewch fod yr holl wybodaeth yn gywir.

Y Dystiolaeth Angenrheidiol – bydd angen 2 fath o brawf adnabyddiaeth arnom i wirio eich hunaniaeth:

- ✓ Pasbort Dilys/Trwydded Yrru/ID Ffotograffig
- ✓ Prawf o'ch cyfeiriad wedi'i ddyddio o fewn y tri mis diwethaf.

Adran 2 – Eich Rhwystrau

Amlinellwch eich amgylchiadau presennol ac unrhyw heriau y gallech fod wedi'u hwynebu ar eich taith hyd yn hyn. Cwblhewch yr adran hon mor fanwl â phosibl fel y gallwn ddeall pam mae angen cymorth arnoch o'r gronfa hon.

Adran 3 - Gwybodaeth am eich busnes newydd arfaethedig

Rhowch fanylion eich busnes newydd – enw arfaethedig, math o fusnes a'ch dyddiad cychwyn disgwylledig. Bydd gofyn i chi hefyd anfon eich achos busnes a'ch cynllun ariannol gyda'ch ffurflen gais wedi'i chwblhau.

Adran 4 - Cyllid

Rhowch wybod i ni faint o arian rydych chi'n ymgeisio amdano. Gallwch wneud cais am uchafswm o £2,000. Mae angen i ni wybod beth rydych yn bwriadu defnyddio'r grant ar ei gyfer, a bydd angen i chi fanylu ar yr hyn sydd ei angen, y costau a pham mae angen yr 'eitem' hon. Os oes mwy na 5 eitem, grwpwch nhw'n briodol os gwelwch yn dda.

Hoffem hefyd wybod a ydych yn bwriadu cyflogi unrhyw staff ac, os felly, fanylion am y mathau o rolau y byddwch yn eu cynnig. Mae angen i ni asesu pa effaith y bydd y grant hwn yn ei chael, a pha wahaniaeth y bydd hyn yn ei wneud i'ch helpu i ddechrau eich busnes.

Adran 5 – Manylion Banc

Bydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i wneud y taliad Grant i chi. Sicrhewch fod y manylion banc yr ydych yn eu darparu yn gywir. Dim ond i'ch cyfrif banc personol y gellir talu'r arian; ni fyddwn yn talu i mewn i gyfrifon busnes na chyfrif banc rhywun arall. Bydd manylion banc anghywir yn arwain at beidio â thalu'r grant neu ohirio'r taliad.

Adran 6 – Y Cymorth Ariannol Lleiaf (MFA) a dderbyniwyd

Mae'r Grant Rhwystrau rhag Dechrau Busnes i bobl 25 oed a hŷn yn cael ei ddyfarnu fel cymhorthdal Ariannol Lleiaf (MFA), ac felly mae'n ofynnol i chi ddarparu gwybodaeth am unrhyw gymorth a gawsoch o dan reoliadau de minimis yr UE, unrhyw MFA blaenorol ac unrhyw gymorthdaliadau a roddwyd fel symiau bach o gymorth ariannol (SAFA) o dan Erthyglau 364(4) neu 365(3) o Gytundeb Masnach a Chydweithrediad y DU a'r UE yn y ddwy flynedd ariannol gyfredol a blaenorol. Os nad ydych wedi derbyn unrhyw beth – nodwch y gair DIM. Mae'n bwysig nad yw'r adran hon yn cael ei gadael yn wag. Gellir dod o hyd i wybodaeth ar Ganllawiau Rheoli Cymhorthdal Llywodraeth y DU (gan gynnwys SAFA) yn [Guidance on the UK's international subsidy control commitments - GOV.UK](https://www.gov.uk/guidance/on-the-uk-international-subsidy-control-commitments) (www.gov.uk)

Adran 7 - Datganiad

Mae'n bwysig iawn eich bod wedi darllen y ddogfen ganllaw hon yn ofalus ac yn deall y telerau a'r amodau sy'n gysylltiedig â'r cais hwn am Grant hwn.

Os ydych yn cytuno i'r telerau ac amodau yn y ddogfen hon ac yn gallu cadarnhau bod y wybodaeth a ddarparwyd yn y cais yn wir ac yn gywir, yna mae'n rhaid i chi dicio'r blwch, cynnwys unrhyw lofnodion a dyddiadau a chyflwyno'ch cais drwy e-bost i'r cyfeiriad canlynol Barriers4SUG@BusinessWales.org

BETH SY'N DIGWYDD AR ÔL I'R CAIS GAEL EI DDERBYN?

Unwaith y byddwn yn derbyn eich ffurflen gais, bydd ein tîm yn cydnabod derbyn eich cais ac yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy.

Mae'n rhaid i bob ymgeisydd ymgysylltu â chynghorydd Busnes Cymru i gadarnhau bod ymgysylltiad paratoadol cyn dechrau wedi digwydd, bod y syniad busnes yn hyfyw ac yn gynaliadwy, a bod yr holl gostau refeniw yn briodol ac yn gymwys ar gyfer y syniad busnes a'r cais am grant fydd yn cael ei gyflwyno.

Ein nod yw prosesu ceisiadau am grant o fewn 10 diwrnod gwaith o gydnabod. Gwneir penderfyniadau ar geisiadau yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarperir yn y ffurflen gais, tystiolaeth gysylltiedig (achos busnes/dadansoddiad o gostau refeniw a sylwadau cynghorwr a gwiriadau diwydrwydd dyladwy pellach).

Os cewch eich cymeradwyo, byddwch yn derbyn llythyr cymeradwyo grant drwy e-bost yn eich hysbysu o ddyfarniad y grant a dolen i'r telerau ac amodau i chi eu hadolygu. Rhaid i chi ymateb i'r cynnig hwn o fewn saith diwrnod gwaith, neu bydd y cynnig grant yn cael ei dynnu'n ôl.

Rhaid i ymgeiswyr gadarnhau eu bod yn derbyn y llythyr cynnig trwy e-bost a DocuSign. Ar ôl derbyn a chydabod, ein nod yw talu i mewn i'ch cyfrif banc personol o fewn 10 diwrnod gwaith. Dim ond i'ch cyfrif banc personol chi y gwneir taliad; ni fyddwn yn talu i mewn i gyfrifon busnes na chyfrif banc rhywun arall.

Fel rhan o delerau ac amodau eich cais, byddwch yn cytuno i barhau i dderbyn cymorth ar ôl dechrau. Bydd 2 ryngweithiad ar ôl dechrau lle byddwn yn gofyn am dystiolaeth bod y cwmni wedi dechrau masnachu, e.e. copi o'r anfoneb gyntaf, tystiolaeth o ddatganiad cyfrif banc busnes a'ch bod wedi cymryd camau i gofrestru'r busnes ar gyfer yr endid a ddewiswyd ar ei gyfer (e.e., statws cwmni cyfyngedig / hunangyflogaeth gyda CThEM)

Bydd adolygiadau hefyd yn cael eu cynnal i sicrhau bod yr arian grant yn cael ei ddefnyddio at y dibenion a nodwyd yn eich cais am grant fel y cafodd ei gymeradwyo.

Os na fydd eich cais yn llwyddiannus, byddwch yn derbyn e-bost yn amlinellu'r rheswm dros wrthod a bydd eich cynghorydd busnes yn trafod opsiynau cymorth eraill sydd ar gael i chi wrth ddechrau busnes. Grant dewisol yw hwn ac nid oes proses apelio.

AD-DALIAD GRANT

Dylai ymgeiswyr nodi y gall Llywodraeth Cymru neu ei chontractwyr penodedig fynnu bod y grant yn cael ei ad-dalu'n llawn neu'n rhannol os nad yw'r arian yn cael ei ddefnyddio i'r dibenion a nodir ar y ffurflen gais neu os na fodlonir telerau ac amodau. Mae'r ymgeisydd yn ymrwymo i gytundeb i'r perwyl hwn a bydd yn cael ei orfodi drwy ofyn am brawf o hyn ar ôl dyfarnu'r grant trwy gynnal gwiriadau o leiaf ddwywaith ar ôl i'r busnes ddechrau.

TELERAU AC AMODAU AR GYFER YMGEISWYR

1. Telir y grant hwn yn ôl disgrisiwn llwyr Llywodraeth Cymru.
2. Gall Llywodraeth Cymru neu ei chontractwyr atal neu adennill yr arian mewn rhai amgylchiadau.
3. Gwneir taliad drwy drosglwyddiad banc i'ch cyfrif banc enwebedig ar ôl casglu digon o dystiolaeth.
4. Rhaid i'r Ymgeisydd sicrhau, at ddibenion y Prosiect Grant, ei fod yn cydymffurfio â Chanllawiau Rheoli Cymhorthdal Llywodraeth y DU. Gellir dod o hyd i ragor o fanylion am y rheolau cymorth gwladwriaethol penodol sy'n berthnasol yma. Mae rhagor o fanylion am Ganllaw Rheoli Cymhorthdal penodol Llywodraeth y DU ar gael yma. Mae'r Ymgeisydd yn gyfrifol am sicrhau bod y grant yn cael ei ddarparu yn unol â'r meini prawf cymorth gwladwriaethol y dyfernir y cyllid arnynt.
5. Cymorth a ddarperir yn unol â 'Chymorth Ariannol Lleiaf' (MFA) fel y'i diffinnir gan Erthygl 364 paragraff 4 o Gytundeb Masnach a Chydweithrediad y DU-UE. Mae hyn yn caniatáu darparu hyd at £315,000 i un fenter economaidd dros gyfnod o dair blynedd ariannol. Mae'r trothwy hwn yn cynnwys unrhyw gymorth SAFA neu gefnogaeth de minimis yr UE a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod perthnasol, bob ffynhonnell.
6. Sylwch y gallai gwybodaeth a gedwir gan Lywodraeth Cymru fod yn wybodaeth y gellir o bosib ei datgelu o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a Chôd Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Fynediad Cyhoeddus at Wybodaeth. Yn ymarferol, ni fyddwn yn datgelu nac yn rhyddhau unrhyw wybodaeth fasnachol sensitif a ddarperir i ni gennych heb ymgynghori â chi ymlaen llaw, ond yn y pen draw, mae'r penderfyniad ynghylch a ddylid datgelu yn un i Lywodraeth Cymru ei wneud wedi ystyried yr holl ofynion cyfreithiol perthnasol.
7. Drwy wneud cais am y grant hwn, rydych yn cytuno i dderbyn y telerau ac amodau hyn. Dilysir eu derbyn trwy wirio'r blwch telerau ac amodau ar y ffurflen gais a thrwy gyflwyno'r cais.
8. Sylwch na fydd unrhyw daliadau yn cael eu gwneud i'r Ymgeisydd hyd oni fyddwch wedi dychwelyd y dystiolaeth ychwanegol angenrheidiol fel yr amlinellir yn adran 1.
9. Bydd unrhyw gyllid a ddyfarnwyd yn cael ei ddefnyddio at y dibenion a gymeradwywyd yn y cais yr ydych wedi'i gyflwyno ac mewn unrhyw ddogfennau y cyfeirir atynt ynddo.
10. Rhaid hawlio'r cyllid erbyn 31 Mawrth 2024.
11. Bydd yr Ymgeisydd yn rhoi i Lywodraeth Cymru yr holl wybodaeth am ei weithgareddau neu weithgareddau arfaethedig ac o ran ei ddefnydd neu ddefnydd arfaethedig o'r cyllid cyfan neu unrhyw ran ohono, fel y mynnir gan Lywodraeth Cymru o bryd i'w gilydd.
12. Mae Llywodraeth Cymru yn mynnu fod pawb sy'n derbyn cyllid yn sicrhau eu bod yn gweithredu polisi o gyfleoedd cyfartal fel cyflogwyr, fel defnyddwyr gwirfoddolwyr, ac fel darparwyr gwasanaethau, waeth beth fo'u hunaniaeth o ran hil, rhywedd/hunaniaeth rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chred, oedran neu cyn belled ag y bo'n ymarferol, unrhyw anabledd.
13. Bydd gan Lywodraeth Cymru hawl i amrywio, atal, neu derfynu unrhyw ran o'r cyllid neu'r cyfan ohono a/neu ei gwneud yn ofynnol i ran neu'r cyfan o'r cyllid sydd eisoes wedi ei dalu gael ei ad-dalu:
 - i. os bydd yr Ymgeisydd yn methu â chydymffurfio ag unrhyw delerau, amod neu ddarpariaeth a nodir yn y ddogfen Telerau ac Amodau hon, nodiadau Canllawiau'r cais;
 - ii. pe canfyddir bod unrhyw wybodaeth a ddarparwyd gan neu ar ran yr Ymgeisydd mewn perthynas â chaffael y cynnig hwn o gyllid neu mewn hawliad am dalu cyllid yn anghywir neu'n gamarweiniol i raddau y mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn berthnasol;
 - iii. bod Llywodraeth Cymru yn amau bod yr Ymgeisydd a/neu unrhyw un o'i swyddogion yn/ymwneud â gweithgarwch twyllodrus.

14. Gall Llywodraeth Cymru amrywio a/neu atal unrhyw daliadau o gyllid a/neu'r cyfan ohonynt a/neu fynnu bod y cyllid ynghyd â llog yn cael ei ad-dalu o'r dyddiad talu os:

- i. mae'n ofynnol iddynt wneud hynny o ganlyniad i unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol neu o ganlyniad i unrhyw rwymedigaeth o dan Gyfraith Gymunedol; neu
- ii. ei bod yn angenrheidiol yn eu barn nhw i sicrhau bod yr arian a ddarparwyd yn unol â'r llythyr hwn ynghyd ag unrhyw gyllid arall sydd wedi, neu sy'n debygol o gael ei dderbyn tuag at y Prosiect Grant, yn gymorth gwladwriaethol cyfreithlon.

15. Os yw'r Ymgeisydd yn cael ei ddirwyn i ben neu'n cael ei ddiddymu (gan gynnwys bod yn ddarostyngedig i unrhyw orchymyn gweinyddu), yn mynd i law'r derbynnydd, yn mynd yn fethdalwr, yn ymrwmo i unrhyw gyfaddawd neu drefniant arall o'i ddyledion gyda'i gredydwyd neu os bydd unrhyw ddigwyddiad tebyg neu gyfystyr ag unrhyw un o'r digwyddiadau a ddisgrifir yn y paragraff 15 hwn yn digwydd, yna bydd gan Lywodraeth Cymru hawl i adennill ar gais gan yr Ymgeisydd, y cyllid a dalwyd ac ni fydd unrhyw arian pellach yn ddyledus neu'n daladwy gan Lywodraeth Cymru i'r Ymgeisydd neu i unrhyw un sy'n gweithredu ar ei ran neu yn ei enw. Bernir bod unrhyw gyfeiriadau at swm y cyllid a dalwyd neu sydd i'w dalu i'r Ymgeisydd yn golygu ac yn gyfyngedig i'r swm o arian a dalwyd mewn gwirionedd i'r Ymgeisydd gan Lywodraeth Cymru ar yr adeg y bydd unrhyw un o'r digwyddiadau y cyfeirir atynt uchod yn digwydd.

16. Bydd yr Ymgeisydd, yn ddi-dâl, yn caniatáu i unrhyw swyddog neu swyddogion o Lywodraeth Cymru neu eu cynrychiolwyr, ar unrhyw adeg resymol ymweld â'i safle a/neu archwilio unrhyw un o'i weithgareddau a/neu archwilio'r asedau neu'r eitemau cost prosiect a brynwyd, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, gyda'r cyllid a/neu i archwilio a chymryd copïau o lyfrau cyfrifon yr Ymgeisydd ac unrhyw ddogfennau neu gofnodion y bydd y cyfryw swyddogion o'r farn eu bod yn ymwneud mewn unrhyw ffordd â'r defnydd a wnaeth yr Ymgeisydd o'r cyllid. Mae'r amod hwn heb ragfarn ac yn ddarostyngedig i unrhyw hawliau a phwerau statudol eraill y gellir eu harfer gan Lywodraeth Cymru neu unrhyw swyddog, gwas neu asiant iddo.

17. O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mae gan Archwilydd Cyffredinol Cymru hawliau mynediad helaeth i ddogfennau a gwybodaeth sy'n ymwneud â chyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Mae ganddo ef a'i swyddogion y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i bersonau perthnasol sy'n rheoli neu'n cadw dogfennau roi unrhyw gymorth, gwybodaeth ac esboniad y gallai fod eu hangen arnynt ac i'w gwneud yn ofynnol i'r personau hynny ddod ger eu bron at y diben hwnnw. Gall yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff arfer yr hawl hon ar bob adeg resymol.

18. Bydd yr Ymgeisydd yn caniatáu i archwilwyr gael mynediad at ddogfennau a gwybodaeth sy'n ymwneud â chyllid ar gyfer y Prosiect Grant. Bydd yr ymgeisydd yn sicrhau bod pobl sy'n rheoli neu'n cadw dogfennau sy'n ymwneud â'r Prosiect Grant yn rhoi unrhyw gymorth, gwybodaeth ac esboniad y gall fod eu hangen arnynt i'r archwilwyr.

19. Os, yn ystod y flwyddyn ariannol, neu yn ystod archwiliad cyfrifon sy'n ymwneud â'r flwyddyn ariannol honno, y daw'r Ymgeisydd yn ymwybodol o ddirywiad sylweddol yn ei amgylchiadau ariannol, rhaid iddo hysbysu ei Swyddog yn Llywodraeth Cymru ar unwaith.

20. Rhaid i'r Ymgeisydd gydnabod, drwy gynnwys geiriad priodol (ar ddatganiadau i'r wasg) a brandio (ar gyhoeddusrwydd, deunyddiau cyfathrebu ac arwyddion), y cyfraniad a wneir i'w weithgareddau gan y grant gan Lywodraeth Cymru. Dylai'r Ymgeisydd gysylltu â'i Swyddog yn Llywodraeth Cymru i gael rhagor o fanylion.

21. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud ymdrechion rhesymol i dalu hawliadau yn brydlon, ond nid ydynt yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb mewn perthynas â cholled y gellir ei phriodoli i unrhyw oedi o ran talu hawliadau neu y gellir eu priodoli i unrhyw achos o atal, lleihau, neu ganslo'r cyllid.

22. Rhaid i chi beidio â defnyddio'r cyllid a ddarperir at ddibenion pleidiau gwleidyddol; (2) hyrwyddo safbwyntiau seciwlar, crefyddol neu wleidyddol benodol; (3) hapchwarae; (4) pornograffi; (b) cynnig gwasanaethau rhywiol; (6) prynu offer cyfalaf (ac eithrio fel y pennir yn y Dibenion);

(7) eich ffioedd cyfreithiol mewn perthynas â'r llythyr hwn; (8) Costau yr eir iddynt neu gostau yr eir iddynt ac a dalwyd gennych wrth gyflawni'r Dibenion cyn y cyfnod y cyfeirir ato yn Amod 1 (b); (9) unrhyw weithgareddau anghyfreithlon; neu (10) unrhyw fath arall o weithgaredd a allai, yn ein barn ni, ddwyn anfri arnom.

23. Trwy lofnodi'r cais hwn, rydych yn ardystio nad oes unrhyw ymglyfreitha na chyflafareddu yn digwydd ar hyn o bryd nac yn yr arfaeth neu, i'r graddau yr ydych yn ymwybodol, yn cael ei fygwth, sydd neu a allai gael effaith andwyol ar eich gallu i berfformio a chydymffurfio ag unrhyw un o'r Amodau neu'ch gallu i barhau i fasnachu fel busnes yng Nghymru.

24. Drwy lofnodi'r cais hwn, rydych wedi datgelu'r holl ffeithiau neu amgylchiadau perthnasol y mae angen eu datgelu i ni er mwyn ein galluogi i gael golwg gwir a chywir o'ch busnes a'ch materion (cyfredol a rhagolygol) neu y dylid eu darparu i unrhyw berson sy'n ystyried darparu cyllid i chi.

25. Trwy lofnodi'r cais hwn rydych yn cytuno i gydweithredu'n llawn â Swyddog Llywodraeth Cymru ac ag unrhyw weithiwr arall i Lywodraeth Cymru neu ymgynghorydd a benodwyd gennym ni i fonitro eich defnydd o'r Cyllid a'ch cydymffurfiaeth â'r Amodau.

26. Rhaid i chi gadw cofnodion cyfrifeg cyflawn a chywir sy'n nodi'r holl incwm a gwariant mewn perthynas â'r cais yr ydych wedi'i wneud ac, yn ddi-dâl, caniatáu i unrhyw swyddog neu swyddogion o Lywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru, ei chontractwyr enwebedig ar unrhyw adeg resymol a chyda rhybudd rhesymol (mewn amgylchiadau eithriadol, megis atal neu ganfod twyll, efallai na fydd yn ymarferol rhoi rhybudd rhesymol i chi) a roddir i chi i ymweld â'ch safle a/neu archwilio unrhyw un o'ch gweithgareddau a/neu archwilio a chymryd copïau o'ch llyfrau cyfrifon ac unrhyw ddogfennau neu gofnodion eraill sut bynnag y cânt eu storio, a allai, ym marn resymol y swyddog hwnnw, ymwneud mewn unrhyw ffordd â'ch defnydd o'r Grant. Mae'r ymgymeriad hwn heb ragfarn ac yn ddarostyngedig i unrhyw hawliau a phwerau statudol eraill y gellir eu harfer gan Lywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru neu unrhyw swyddog, gwas neu asiant unrhyw un o'r uchod.

27. Nid oes dim yn yr Amodau yn gosod unrhyw atebolrwydd arnom mewn perthynas ag unrhyw atebolrwydd sydd gennych i unrhyw drydydd parti (gan gynnwys, heb gyfyngiad, gweithwyr a chontractwyr).

28. Mae'n rhaid i chi ein hindemnio yn erbyn unrhyw rwymedigaethau, hawliadau, achosion, galwadau, colledion, costau, a threuliau a ddioddefwyd gennym neu a achoswyd yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i ni o ganlyniad i neu mewn cysylltiad ag unrhyw fethiant gennych i gyflawni'n llawn neu'n rhannol unrhyw rwymedigaeth sydd gennych i drydydd parti.

Grant Rhwystrau rhag Dechrau Busnes i bobl 25 oed a hŷn – Hysbysiad Preifatrwydd

Mae eich preifatrwydd yn bwysig i Busnes Cymru. Mae'r hysbysiad hwn yn nodi sut y byddwn yn defnyddio eich data personol, a'ch hawliau. Fe'i gwneir o dan Erthyglau 13 a/neu 14 o Reoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR).

Er mwyn cael ei ystyried ar gyfer y Grant Rhwystrau rhag Dechrau Busnes a derbyn cefnogaeth gan Busnes Cymru, mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru gasglu gwybodaeth gennyhych chi. Bydd y wybodaeth hon yn cynnwys gwybodaeth bersonol amdanoch chi yn ogystal â gwybodaeth am eich busnes. Mae'r wybodaeth bersonol hon yn angenrheidiol er mwyn i ni asesu eich cymhwysedd ar gyfer y grant, ac os yw'n llwyddiannus, i gael gafael ar gyllid, gwasanaethau, cyngor a gwybodaeth i ddechrau eich busnes. Cymerwch eiliad i ymgyfarwyddo â'n harferion preifatrwydd.

1. Pam rydym yn casglu ac yn prosesu'r data a gasglwyd

Llywodraeth Cymru fydd y Rheolwr Data ar gyfer y data personol rydych chi'n ei ddarparu wrth gael mynediad i gymorth Busnes Cymru mewn perthynas â'ch cais am y grant. Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol yw adran 6(1)(e) o Ddeddf Diogelu Data 2018. Mae'r prosesu hwn yn angenrheidiol er mwyn cyflawni ein tasg gyhoeddus i'ch adnabod a darparu'r cyngor a'r wybodaeth fusnes fwyaf priodol ac asesu eich cymhwysedd ar gyfer yr arian grant.

Caiff data Categori Arbennig ei brosesu weithiau a hynny oherwydd bod darparu cymorth ariannol i unigolion sy'n wynebu rhwystrau rhag dechrau busnesau newydd a'r farchnad gyflogaeth o fudd sylweddol i'r cyhoedd.

Mathau o Wybodaeth Bersonol

Byddwn yn prosesu'r data personol a busnes canlynol:

- enw
- cyfeiriad
- gwybodaeth gyswllt
- gwybodaeth ariannol bersonol (manylion banc)
- gwybodaeth am eich busnes (fel cynllun busnes neu fantolenni busnes neu lif arian)

I dderbyn y Grant Rhwystrau rhag Dechrau Busnes, byddwn hefyd yn prosesu gwybodaeth Categori Arbennig ynghylch eich ethnigrwydd neu anabledd i asesu eich cymhwysedd. Mae'r data personol yn ymwneud â manylion yr ymgeisydd unigol yn unig. Rydym hefyd yn casglu gwybodaeth ddemograffig sy'n ein helpu i fonitro ac adrodd ar nifer yr unigolion a'r mentrau sy'n cymryd rhan mewn prosiectau a'n helpu i dargedu'r grwpiau demograffig cywir ar gyfer cymorth Busnes. Gall methu â rhoi'r wybodaeth hon i ni eich atal rhag defnyddio'r gwasanaeth.

Mae'r wybodaeth hon hefyd yn caniatáu i Lywodraeth Cymru ddarparu'r cyllid, cynllunio a monitro prosiectau a chynhyrchu cyhoeddiadau ystadegol.

Efallai y byddwn yn cysylltu â chi i ofyn am eich caniatâd i ddefnyddio eich manylion busnes ar gyfer gweithgareddau marchnata Busnes Cymru. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio eich data heb eich caniatâd at y diben penodol hwn.

Sylwch y bydd sefydliadau ymchwil/gwerthuswyr yn cysylltu â sampl o unigolion a/neu fentrau yn unig. Os cysylltir â chi i gymryd rhan mewn unrhyw ymchwil/gwerthusiad am eich profiad ar y prosiect, bydd pwrpas y cyfweiliad neu'r arolwg yn cael ei egluro i chi, a byddwch yn cael yr opsiwn i ddweud ie neu na i gymryd rhan. Bydd eich manylion cyswllt yn cael eu defnyddio ar gyfer ymchwil cymeradwy yn unig a byddant yn cael eu dileu unwaith y bydd yr ymchwil cymeradwy hwn wedi'i chwblhau.

2. Atal Twyll

Cyn i ni ddarparu cyllid grant i chi, rydym yn cynnal gwiriadau at ddibenion atal twyll a gwyngalchu arian, ac i wirio pwy ydych chi. Mae'r gwiriadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni brosesu data personol amdanoch chi i asiantaethau atal twyll trydydd parti. Os ydym ni, neu asiantaeth atal twyll, yn penderfynu eich bod yn peri risg o dwyll neu wyngalchu arian, efallai y byddwn yn gwrthod darparu'r cyllid grant y gwnaethoch gais amdano, neu efallai y byddwn yn rhoi'r gorau i ddarparu cyllid grant presennol i chi.

Bydd cofnod o unrhyw risg o dwyll neu wyngalchu arian yn cael ei gadw gan yr asiantaethau atal twyll, a gall arwain at eraill yn gwrthod darparu gwasanaethau, cyllid neu gyflogaeth i chi.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn eich cais, byddwn yn ysgrifennu atoch gydag amlinelliad o'r rhesymau pam a sut y gallwch ailymgeisio am y cyllid (os dymunwch).

3. Pwy fydd â mynediad i'ch data?

Bydd y wybodaeth yn cael ei storio ar System TG ddiogel Llywodraeth Cymru. Mae'n cael ei chasglu a'i rhannu gyda'r sefydliadau canlynol at y dibenion a restrwyd yn flaenorol:

- Ein contractwyr Busnes Cymru sy'n darparu'r gwasanaeth i chi
- Sefydliadau ymchwil cymdeithasol cymeradwy, i gynnal ymchwil, dadansoddiad neu i fonitro'r gwasanaeth o ran cyfleoedd cyfarta
- Timau gwasanaethau cymorth Llywodraeth Cymru a'i gweinyddwyr technegol systemau sy'n cefnogi'r system T.G. Ni fydd gweinyddwyr technegol systemau yn defnyddio'ch manylion mewn unrhyw ffordd
- Swyddfa Archwilio Cymru neu'r rhai sy'n gweithredu ar eu rhan, neu archwilwyr priodol eraill Gwasanaethau Busnes Cymru

4. Am ba hyd ydym ni'n ei gadw?

Bydd Llywodraeth Cymru yn cadw eich data personol am o leiaf 10 mlynedd ar ôl i'r prosiect ddod i ben at ddibenion archwilio, ac ar ôl hynny bydd yn cael ei ddinistrio'n ddiogel. Os nad ydych yn llwyddiannus yn eich cais, bydd eich gwybodaeth bersonol a roddwyd yn y cais hwnnw yn cael ei chadw am gyfnod o 12 mis yn unol â pholisi cadw gwybodaeth Llywodraeth Cymru.

5. Beth yw eich hawliau?

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i gael mynediad at y data personol sydd gan Lywodraeth Cymru amdanoch
- i'w gwneud yn ofynnol i ni gywiro gwallau yn y data hwnnw
- i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu (mewn rhai amgylchiadau)
- i'ch data gael ei 'ddileu' (mewn rhai amgylchiadau)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

Y manylion cyswllt ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw:

Cyswllt Cwsmeriaid
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF

Rhif Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113

Gwefan: www.ico.org.uk

I gael cymorth gydag unrhyw un o'r hawliau uchod, cysylltwch â'n Llinell Gymorth Busnes Cymru 03000 6 03000 neu defnyddiwch y ffurflen cysylltu â ni <https://businesswales.gov.wales/cy/cysylltwch-a-ni>

6. Y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'ch Gwybodaeth

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd ofyn am weld gwybodaeth a gedwir gan gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Gall yr wybodaeth a roddwch i ni fod yn destun cais rhyddid gwybodaeth gan aelod arall o'r cyhoedd. Byddwn yn ymgynghori â chi i ofyn am eich barn cyn ymateb i gais o'r fath.

7. Newidiadau i'r polisi hwn

Gall Llywodraeth Cymru wneud newidiadau i'r polisi preifatrwydd hwn ar unrhyw adeg. Bydd newidiadau yn cael eu postio yma ac yn dod i rym ar unwaith. Pan fydd newidiadau'n digwydd i'r polisi hwn, byddwn yn cysylltu â chi ar y cyfeiriad e-bost yr ydym wedi'i gofnodi yn eich cyfrif i'ch galluogi i adolygu'r fersiwn newydd.

Am fwy o wybodaeth am eich hawliau gwybodaeth

Cyfeiriad Post:

Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

Cyfeiriad Epost: DataProtectionOfficer@gov.wales